urdd.org

# Urdd Gobaith Cymru
# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Swyddog Prosiect Chwaraeon |
| **Yn atebol i'r:** | Swyddog Datblygu Chwaraeon |
| **Cyflog:** | Ar raddfa 5 Strwythur Cyflog yr Urdd (£18,138) hyd (£21,026). Penodir ar bwynt 1 oni bai fod profiad / cymwysterau arbennig yn denu un pwynt ychwanegol.<br><br>Mae'r swydd yn un tymor penodol am 12 mis ac yn cael ei ariannu gyda chymorth Chwaraeon Cymru. |
| **Oriau gwaith:** | 35 awr yr wythnos. Oherwydd natur y swydd mae'n ofynnol i'r Swyddog weithio oriau oddi allan i oriau safonol swyddfa yn achlysurol. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn hyblyg yn y cyswllt hwn. |
| **Lleoliad:** | Aberystwyth (Llangrannog 2 diwrnod y mis) |
| **Gwyliau blynyddol:** | Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus – y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Hyfforddi Chwaraeon Cenedlaethol. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl pum mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth. Bydd angen neilltuo tri diwrnod y cyfnod rhwng y Nadolig a'r flwyddyn newydd. |
| **Cyfnod prawf:** | Bydd cyfnod prawf o chwe mis. |
| **Pensiwn:** | Bydd cyfle i ymuno â phensiwn mewnol yr Urdd ar unwaith. |
| **Teithio:** | Mae teithio yn rhan annatod o'r swydd, telir lwfans o 40c y filltir. Bydd angen meddu ar drwydded yrru a char er mwyn cyflawni'r swydd hon. |
| **Gwiriad CRB:** | Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (C.R.B.) |
| **Archwiliad meddygol:** | Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir fynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol. |

**Dyletswyddau**

1. Nod y swydd fydd cynyddu cyfranogaeth plant a phobl ifanc mewn gweithgaredd chwaraeon cyson, drwy gyfrwng y Gymraeg.

2. Bydd angen i'r Swyddog Prosiect Chwaraeon ddatblygu sesiynau wythnosol a chlybiau y tu allan i oriau dysgu yn yr ardaloedd a nodwyd, gan gynnig cyngor i glybiau ar eu strwythur ac ariannu. Bydd targedau penodol yn cael eu cytuno.

3. Rheoli a datblygu gwirfoddolwyr sydd yn gweithio yn glybiau chwaraeon yr adran

4. Mewn rhai ardaloedd bydd angen cydweithio â chlybiau lleol sydd eisoes yn bodoli er mwyn annog plant a phobl ifanc i fynychu sesiynau wythnosol. Lle nad oes clybiau addas yn bodoli eisoes, bydd angen trefnu clybiau yn enw'r Urdd. Bydd modd hefyd cyflwyno sesiynau chwaraeon i grwpiau sydd eisoes yn cyfarfod yn enw'r Urdd. Bydd targedau penodol yn cael eu cytuno.

5. Bydd angen hyfforddi gwirfoddolwyr i ymgymryd â sesiynau chwaraeon, gan gynnwys hyfforddwyr ac arweinwyr.

6. Bydd angen cydweithio gyda 'Chwaraeon y Ddraig, 5x60 a swyddogion chwaraeon yr Awdurdodau Unedol, a'r Cyrff Llywodraethol i sicrhau fod 'llwybr allan' i'r rheiny sy'n cymryd rhan. Hefyd, mynychu cyfarfodydd gyda phartneriaid pam mae'r angen yn codi.

7. Bydd angen i'r swyddog dargedu gweithgaredd yn arbennig mewn ardaloedd difreintiedig oddi fewn i'r ardaloedd uchod, gan ei bod hi'n un o amcanion yr Urdd i gynyddu gweithgaredd yn yr ardaloedd hynny, er mwyn sicrhau cynhwysiad cymdeithasol. Bydd angen targedu chwaraeon i ferched, ac i'r rheiny ag anghenion addysgol arbennig hefyd.

8. Bydd disgwyl i'r swyddog gyfrannu at lwyddiant gweithgareddau chwaraeon cenedlaethol hefyd, o dan arweiniad yr adran digwyddiadau

9. Bydd angen datblygu sesiynau / clybiau ar benwythnosau i gyrraedd targedau Chwaraeon Cymru

9. Cydweithio gyda swyddogion chwaraeon yr Urdd ar brosiectau yn ardaloedd gwahanol o Gymru.

10. Tiwtro ar cyrsiau hyfforddiant chwaraeon i wirfoddolwyr neu staff yr Urdd

11. Trefnu a chydlynu prosiectau chwaraeon newydd gyda thargedau ariannol

12. Paratoi a chyflwyno gwaith/cyfleoedd yr Adran i Ysgolion, Cynghorau Sir ayyb

**Gofynion –**

- Bydd angen meddu ar drwydded yrru a char er mwyn cyflawni'r swydd hon.
- Bydd cymhwyster yn y maes chwaraeon a hamdden yn hanfodol.
- Byddai profiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc o fantais.
- Bydd profiad o hyfforddi o fantais.
- Bydd hi'n angenrheidiol gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg er mwyn cyflawni'r swydd hon.

- Dealltwriaeth o nod ac amcanion Urdd Gobaith Cymru.

Dylai unrhyw geisiadau ddangos yn glir sut mae unrhyw brofiad blaenorol, a sgiliau, yn cyfateb i'r anghenion a'r dyletswyddau a nodir yn y Disgrifiad Swydd.

Rhaid i geisiadau gyrraedd y Cyfarwyddwr Chwaraeon Cenedlaethol, Gary Lewis, gary@urdd.org erbyn 6 Tachwedd 17:00y.h. Cyfweliadau 12 Tachwedd, 2015 yn Aberystwyth.

Os hoffech sgwrs anffurfiol am y swyddi cyn ymgeisio, mae croeso i chi gysylltu a Gary Lewis, 02920 635686.